**PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN CYMRU**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD 2002 - 2003**

**Cyflwyniad**

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 10.

2. Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2

> "Bydd y pwyllgorau rhanbarth yn cynghori'r Cynulliad ynglyn â materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yno." Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod yn ei ranbarth o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

3. Mae 17 o aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Peter Black | Gorllewin De Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol |
| Nicholas Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Y Ceidwadwyr |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru | Y Ceidwadwyr |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Plaid Cymru |
| Andrew Davies | Gorllewin Abertawe | Llafur |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Y Ceidwadwyr |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru | Plaid Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro | Llafur |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Llafur |
| Brian Gibbons | Aberafan | Llafur |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | Llafur |
| Edwina Hart | Gwyr | Llafur |
| Helen Mary Jones | Llanelli | Plaid Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru | Plaid Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe | Llafur |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd | Llafur |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | Plaid Cymru |

4. Etholir Cadeiryddion Pwyllgorau rhanbarth yn flynyddol. Bu Rhodri Glyn Thomas AC yn cadeirio'r Pwyllgor tan fis Mai 2002, pan etholwyd Val Lloyd AC i'w olynu.

**Cyfarfodydd**

5. Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith ers mis Mai 2002.

**Dull Gweithio**

6. Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar drafodaethau cyhoeddus am bolisïau sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu adolygiadau sy'n cael eu cynnal gan y pwyllgorau pwnc. Mae'r cyhoedd wedi cael eu hannog i ofyn cwestiynau ac i gymryd rhan mewn trafodaethau ag aelodau'r Pwyllgor am y gwahanol bynciau.

**Lleoliadau'r Cyfarfodydd**

8. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gyfarfod mewn canolfannau cymunedol ac mewn lleoliadau y mae modd i'r cyhoedd gael mynediad atynt. Mae'r Clerc yn gofyn cyngor Aelod Cynulliad yr etholaeth ac unrhyw grwp mynediad ar gyfer pobl anabl wrth ddewis mannau cyfarfod. Cyfarfu'r Pwyllgor yn Hwlffordd (mis Mai), Penlan, Abertawe (mis Tachwedd) a Llangynydd (mis Ionawr).

**Y Materion o Dan Sylw**

9. Mae'r Pwyllgor wedi ymdrin ag ystod o eitemau agenda penodol ar draws holl rychwant cyfrifoldebau'r Cynulliad.

<u>Materion Anabledd</u>

10. Bu'r Pwyllgor yn trafod materion anabledd yn ei gyfarfod ar 24 Mai 2002. Roedd y drafodaeth wedi'i chynnal ar gais Edwina Hart, y Gweinidog sydd â chyfrifoldebau dros gyfle cyfartal, a oedd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor. YN y cyfarfod Cafwyd cyflwyniad gan y Comisiwn Hawliau Anabledd ac roedd sefydliaday arbenigol yn gallu cyflwyno eu safbwyntiau i'r Pwyllgor.

<u>Ynni Adnewyddadwy</u>

11. Hefyd ym mis Mai, bu'r Pwyllgor yn trafod Adolygiad Pwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol o Bolisi Ynni yng Nghymru a chlywodd sylwadau gan nifer o gyrff lleol a grwpiau sydd â diddordeb. Cafodd eu safbwyntiau, a rhai'r cyhoedd a gyfrannodd, eu bwydo yn ôl i Christine Gwyther, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd, fel rhan o ymarfer ymgynghori'r Pwyllgor hwnnw.

Troseddu ac Anhrefn

12. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, bu'r Pwyllgor yn trafod materion troseddu ac anhrefn. Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau gan gyrff gwirfoddol a chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol, ac fe glywodd y pwyllgor dystiolaeth am fentrau sydd ar y gweill gyda'r grwpiau lleol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â throseddu. Cafodd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ei chyflwyno'n ffurfiol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar ôl y cyfarfod.

Adfywio Cymunedau

13. Bu'r Pwyllgor yn trafod Adolygiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad Cenedlaethol o Feithrin Gallu ar gyfer Adfywio Cymunedau yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2003. Yn y Pwyllgor cafwyd cyflwyniadau ar y materion hyn gan gyrff lleol, gan gynnwys yr awdurdod lleol a grwpiau gwirfoddol. Cyflwynwyd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor i Gwenda Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, fel rhan o'r broses ymgynghori sydd ar y gweill.

**Casgliad**

14. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar wrando ar safbwyntiau pobl leol a chyrff lleol am faterion yr oedd y Gweinidogion neu'r pwyllgorau pwnc yn eu harchwilio ar lefel Cymru gyfan. Mae hyn wedi ychwanegu gwerth at waith y Cynulliad, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y trafodaethau.

15. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi rhoi pwyslais ar annog y cyhoedd i gymryd rhan a'i gwneud yn haws cael mynediad i'r cyfarfodydd. Yn y dyfodol, gobeithiaf y bydd modd cryfhau cysylltiadau ag ysgolion a cholegau lleol, am fod gan fyfyrwyr gyfraniad gwerthfawr i'w wneud wrth helpu i ddatblygu polisi'r Cynulliad.

**Val Lloyd**
**Cadeirydd**

ATODIAD

# PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN

## AMSERLEN Y CYFARFODYDD

### Mai 2002 tan Ionawr 2003

| Cyfarfod | Eitemau'r Agenda | Sefydliadau a gymerodd rhan |
|---|---|---|
| 24 Mai 2002<br>Neuadd y Sir, Hwlffordd | Materion Anabledd<br>Meicroffon Agored<br>Adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o Bolisi Ynni yng Nghymru<br>Ethol Cadeirydd<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor | Y Comisiwn Hawliau Anabledd<br><br>Awdurdod Datblygu Cymru<br>Canolfan Eco Gorllewin Cymru<br>Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |
| 15 Tachwedd 2002<br>Clwb Cymdeithasol Penlan, Abertawe | Troseddu ac Anhrefn | Partneriaeth Troseddu ac Anhrefn Castell-nedd Port Talbot<br>Communities that Care<br>Partneriaeth Troseddu ac Anhrefn Sir Benfro |
| 31 Ionawr 2003<br>Neuadd Plwyf Llangynydd, Gwyr | Adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o Feithrin Gallu ar gyfer Adfywio Cymunedau | Dinas a Sir Abertawe<br>Cyngor Gweithredu Gwirfdoddol Castell-nedd Port Talbot<br>Sefydliad Datblygu Cymunedau<br>Rhwydwaith Colegau Agored De Orllewin Cymru |